OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 3238 (Cy.318)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunudd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ionawr 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 93, 94 a 95 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) ("y Ddeddf"), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), er mwyn gweithredu Erthygl 6(1) o Gyfarwyddeb 94/62/EC(**3**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 93(2) o'r Ddeddf, ac ar ôl rhoi sylw i'r materion a bennir yn 93(6) o'r Ddeddf, fel sy'n ofynnol o dan adran 93(5), a'r materion a bennir yn adran 94(5), ac yn unol â'i ddyletswydd o dan adran 93(7), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1995 p.25. *Gweler* adran 93(8) i gael diffiniadau "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau eu bod yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.J. Rhif L365, 31.12.94, t.10.